



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Mehefin 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Mehefin 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd; a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad: Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC, a Rhodri Glyn Thomas AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16** yn amlinellu ein nodau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, sef: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â phobl Cymru; hyrwyddo Cymru; a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-16** - cynllun corfforaethol diwygiedig a ddatblygwyd gennym i roi rhagor o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, blaenoriaethau ac amrywiol elfennau o lywodraethu.

## Adrodd am berfformiad

Dyma'r adroddiad cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15. Rydym wedi adolygu nifer o ddangosyddion ac wedi gwneud newidiadau i wella eglurder ein gwaith adrodd am berfformiad. Dangosir y newidiadau hyn yn y testun ar gyfer y dangosyddion perthnasol. Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'r arolwg boddhad blynyddol o Aelodau Cynulliad a'u staff. Eto, dangosir y newidiadau yn y testun ar gyfer y dangosyddion perthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mehefin 2014, fel a ganlyn:

– mae crynodeb ar ffurf goleuadau traffig yn nodi'r perfformiad cyffredinol o dan bob un o'n nodau strategol;

– mae dadansoddiad manylach yn edrych ar y dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb;

– caiff cymaryddion priodol, o ystod o ffynonellau, eu darparu pan fo hynny'n bosibl.

## Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Gellir gweld bod perfformiad wedi gwella neu aros ar yr un lefel dros y cyfnod hwn o ran prydlondeb y gwasanaethau a ddarparwyd. Cynhaliwyd 100% o'r cyfarfodydd pwyllgor a'r cyfarfodydd llawn yn ystod y cyfnod heb amhariad. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ers inni ddechrau adrodd am ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau sy'n ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae nifer staff y Comisiwn sy'n dysgu Cymraeg wedi parhau ar yr un lefel.

Drwy ddefnyddio dull gweithredu mwy integredig o ran cynorthwyo ein pwyllgorau, rydym wedi gallu gwella ein gwasanaeth i Aelodau drwy allu teilwra ein gwaith i anghenion Aelodau unigol a darparu mwy o gymorth iddynt weithio yn eu dewis iaith - mae'r cynnydd yn sgôr boddhad yr Aelodau ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith, o 6.20 yn 2013 i 8.90 yn 2014, yn dangos hynny'n glir.

## Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Mae nifer y bobl sy'n ymweld â'r Senedd a'r Pierhead yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i gynyddu yn y cyfnod presennol, gyda chynnydd o tua 40% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd yn nifer yr ymwelwyr sy'n mynd ar deithiau tywys. Mae ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gynyddu, gyda nifer y dilynwyr ar Twitter yn tyfu a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gwylio cynnwys y Cynulliad ar YouTube.

Rydym wedi adeiladu ar lansiad llwyddiannus meddalwedd cyfieithu peirianyddol Microsoft drwy hyrwyddo ac arddangos y feddalwedd i randdeiliaid allanol a'r cyfryngau drwy gydol y cyfnod adrodd.

Rydym wedi cyflwyno dull gweithredu gwell ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am yr amryw ffyrdd y gall pobl ifanc gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad, gan gynnwys drwy **http://www.dygynulliad.org** a **@dygynulliad #dygynulliad** ac wedi datblygu dulliau newydd o gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau pwyllgor.

## Perfformiad o ran defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth

Mae ein perfformiad cyllidebol ar gyfer y cyfnod yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i sicrhau y bydd ein tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn o fewn y targed o 1% a'n bod yn rhagori ar ein targed o £500,000 o ran Gwerth am Arian. Gan ein bod datblygu cynllun cynnal a chadw a buddsoddi 10 mlynedd ar gyfer ein hystâd, rydym wedi gallu rhagweld a dyrannu gwariant yn y maes hwn yn fwy cywir nag a wnaed yn y gorffennol. Mae ein ffigurau absenoldeb oherwydd salwch wedi parhau i wella, a chyrhaeddwyd ein targed o <3% ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2014 (2.45% o gymharu â 3.35% ym mis Mehefin 2013).

Mae ein defnydd o ynni yn parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 36% ym mis Mehefin o gymharu â blwyddyn sylfaen 2008-09. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein targedau o ran anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Yn y cyfnod adrodd cafwyd gostyngiad o 0.88 o dunelli (o gymharu â 2.9 o dunelli yn yr un cyfnod y llynedd).

## Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn flynyddol, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ystod o wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i bolisïau sefydliadol. Mae'r wybodaeth hon ar gael **yma**.

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

Gallwch gysylltu â ni **yma**.

Ceir canllawiau ar fynediad at wybodaeth **yma**.

# Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

| Rhif Grŵp KPI | Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf | Ebrill - Mehefin 2013 | Ebrill - Mehefin 2014 | Sylwadau - manylion ar dudalen 6-8 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Boddhad Aelodau | oren | gwyrdd | Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014 |
| 2 | Prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau | gwyrdd | gwyrdd | Perfformiad sy'n gyson uchel o ran prydlondeb papurau pwyllgor, cyhoeddi Cofnod y Trafodion ac ymateb i ymholiadau'r Gwasanaeth Ymchwil. Dim amhariad i fusnes yn ystod y cyfnod |
| 3 | Datblygiad Proffesiynol | gwyrdd | gwyrdd | Nifer y dysgwyr Cymraeg yr un fath; parhaodd nifer y rhai sy'n dilyn datblygiad proffesiynol parhaus i gynyddu |
| 4 | Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | gwyrdd | gwyrdd | Cynnydd tuag at 'gymorth o'r radd flaenaf i bwyllgorau' drwy integreiddio dulliau gweithredu, datblygu cynlluniau i wella prosesau busnes sy'n defnyddio TGCh, cynnydd o ran gwella gwasanaethau dwyieithog |

| Rhif Grŵp KPI | Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | Ebrill - Mehefin 2013 | Ebrill - Mehefin 2014 | Sylwadau - manylion ar dudalen 8-11 |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Boddhad Aelodau | - | oren | Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol |
| 6 | Ymgysylltu â'r Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Parhaodd nifer yr ymwelwyr i godi ac mae boddhad ymwelwyr yn parhau'n uchel |
| 7 | Proffil Allanol y Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Rhyngweithio yn y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gynyddu'n raddol, a lefelau ymgysylltu ag ysgolion ac ymgysylltu rhyngwladol yr un fath |
| 8 | Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu) | gwyrdd | gwyrdd | Datblygwyd Siarter Plant a Phobl Ifanc, mwy o ryngweithio yn y cyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo'r system cyfieithu peirianyddol, dulliau newydd o gasglu tystiolaeth |

# Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

| Rhif Grŵp KPI | Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth | Ebrill - Mehefin 2013 | Ebrill - Mehefin 2014 | Sylwadau - manylion ar dudalen 11-14 |
|---|---|---|---|---|
| **9** | Boddhad Aelodau | gwyrdd | gwyrdd | Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh |
| **10** | Perfformiad Cyllidebol | gwyrdd | gwyrdd | Perfformiad ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau, sef tanwariant o lai na 1% ac arbedion gwerth am arian o £500,000 |
| **11** | Staff | oren | gwyrdd | Ffigurau absenoldeb salwch lawer yn is na'r targed a chyfartaledd y sector; nifer fawr o adolygiadau perfformiad wedi'u cwblhau'n brydlon |
| **12** | Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh | oren | gwyrdd | Perfformiad da o ran cyflawni targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a sgorau uchel o ran boddhad cwsmeriaid (Aelodau a staff) |
| **13** | Llywodraethu | gwyrdd | gwyrdd | Taliadau i Aelodau a chyflenwyr ymhell o fewn y gyfradd darged. Roedd 3 allan o 13 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn hwyrach na'r dyddiad targed gan fod eithriadau'n gymwys ac roedd angen ymgynghori'n eang â'r rhai yr effeithiwyd arnynt, aed i'r afael â'r holl argymhellion archwilio |
| **14** | Cynaliadwyedd | oren | gwyrdd | Defnydd o ynni ac anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn parhau i ostwng |
| **15** | Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad) | gwyrdd | gwyrdd | Cytunwyd ar raglen buddsoddi a chynnal a chadw 10 mlynedd sydd bellach ar waith |

## Allwedd

COCH: Mae materion allweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

OREN: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

GWYRDD: Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu'n ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys i'r Comisiwn yn cael ei rheoli.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 [1] | Ebr-Meh 2014-15 [1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 1 | Cyfarfodydd Llawn | 7.70 yn 2013 | 8.00 | 7.70 | 7.70 | ⇨ | Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos bod pethau wedi gwella, neu na fu newid, ers y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013. |
| | Cyfarfodydd Pwyllgor | 7.90 yn 2013 | 8.00 | 7.90 | 7.90 | ⇨ | |
| | Gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith | 6.20 yn 2013 | 8.00 | 6.20 | 8.90 | ⇧ | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 2 | % y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | amherthnasol | 100% | amherthnasol | 98.81% | - | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Nid oes cymharydd gan fod y mesur wedi newid i ddangos y terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor yn hytrach na'r terfyn amser yn y Rheolau Sefydlog, sef llai na 2 ddiwrnod. |
| | % yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | 98% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 99.00% | 98.10% | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. |
| | % Cofnod Trafodion y cyfarfod llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno | 100% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 100.00% | 100.00% | ⇨ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. |
| | Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfod llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn | 12 allan o 306 (3.92%) yn 2013-14 | Dim | 6 allan o 86 (6.9%) | 0 allan o 95 (0%) | ⇧ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Nid oedd unrhyw amhariad yn ystod y cyfnod hwn. |
| | % Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | amherthnasol | 100% | amherthnasol | 96.00% | - | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Newidiwyd y targed o 14 diwrnod i 5 diwrnod felly nid oes cymharydd. Pan fethwyd â bwrw targedau, roedd hynny oherwydd llwyth gwaith uwch ac absenoldeb staff ym mis Mai a mis Mehefin. |

 Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 (1) | Ebr-Meh 2014-15 (1) | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau (parhau), gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **2** | % y rhestrau wedi'u didoli ar gyfer trafodion Bil yng Nghyfnod 3 a gyhoeddwyd erbyn terfyn amser y Rheolau Sefydlog | amherthnasol | >2 ddiwrnod o drafod | 100.00% | 100.00% | ⇨ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Gweler yr amser a dreuliwyd ar gamau pob darn o ddeddfwriaeth yn y graff yn yr atodiad. |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **3** | Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg | 34 (Mawrth 2014) | Cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg | 31 | 34 | ⇧ | Fel ym mis Mehefin. Mae dangosydd newydd ar gyfer capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect i wella gwasanaethau dwyieithog. |
| | Nifer Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol | 41 / 155 yn 2013-14 | Cynnal nifer Aelodau'r Cynulliad / staff cymorth sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol | 18 / 73 | 25 / 68 | ⇧ | Fel ym mis Mehefin. Mae'r nifer sy'n ailymgymryd â datblygiad proffesiynol yn adlewyrchu cyfanswm Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth a gymerodd ran yn ystod y cyfnod. Mae nifer yr Aelodau Cynulliad newydd sy'n cymryd rhan, a chyfanswm y rhai sy'n cymryd rhan, wedi parhau i gynyddu. Mae nifer y staff cymorth newydd sy'n cymryd rhan, a chyfanswm y staff cymorth sy'n cymryd rhan, ychydig yn is na'r un cyfnod y llynedd. |
| | Nifer Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ailymgymryd â datblygiad proffesiynol | 407 / 647 yn 2013-14 | | 105 / 198 | 107 / 171 | ⇩ | |
| ***Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*** | | | | | | | |
| **4** | Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r cymorth a ddarperir gennym, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein Strategaeth TGCh | – | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Mae'r cynnydd tuag at y weledigaeth o gael pwyllgorau o'r radd flaenaf wedi cynnwys: cynllunio strategol ar gyfer rhaglenni gwaith pwyllgorau, ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a deunydd briffio gwell; dulliau mwy cyson o gael papurau a thystiolaeth; teilwra cymorth i Aelodau yn fwy drwy ddod i ddeall yr hyn sydd orau ganddynt; deunydd briffio dwyieithog llawn i ragor o bwyllgorau, yn unol â'r hyn sydd orau gan Aelodau. Mae sawl prosiect ar waith, neu'n cael ei ddatblygu, i wella'r defnydd o dechnoleg (e.e. defnyddio Sharepoint fel platfform i wella prosesau busnes, technoleg newydd yn y Siambr, gwelliannau i'r broses ddarlledu, cofnodi ac archifo trafodion y Cynulliad). |

Nid yw'r cyfnod rhang mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. 

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 [1] | Ebr-Meh 2014-15 [1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | | | | | | | |
| ***Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (parhau)*** | | | | | | | |
| **4** | Gwell gwasanaethau dwyieithog | – | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Gwnaethom barhau i weithio gyda Microsoft i wella cywirdeb a dibynadwyedd y system cyfieithu peirianyddol a ddatblygwyd ar y cyd; hyrwyddo'r system; sefydlu adnodd penodedig i hyrwyddo a monitro safon y data sy'n cael ei lwytho i'r system ganolog. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr wedi bod yn gadarnhaol, ac fe'i defnyddiwyd i nodi meysydd ar gyfer gwella. Darperir rhagor o ddeunydd briffio dwyieithog i bwyllgorau ac, am y tro cyntaf, llwythwyd cynnwys i YouTube sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddewis isdeitlau Cymraeg neu Saesneg. |

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 [1] | Ebr-Meh 2014-15 [1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **5** | Ymgysylltu â phobl Cymru | – | 8.00 | - | 6.70 | - | Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Newidiwyd y cwestiwn, felly nid oes cymharydd ar gyfer arolwg 2013. |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ymgysylltiad yn y Cynulliad, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **6** | Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd/Pierhead | Cyfanswm o 168,505 yn 2013-14 | Cynnydd o gymharu â 2013/14 | 43,328 | 47,169 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Mae nifer yr ymwelwyr yn parhau i gynyddu gyda 15,700 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 14,400 y mis yn yr un cyfnod y llynedd. |
| | Nifer yr ymwelwyr ar deithiau | Cyfanswm o 15,466 yn 2013-14 | | 3,570 | 5,027 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Parhaodd nifer yr ymwelwyr ar deithiau i godi gyda 1,676 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 1,190 y mis ar gyfartaledd yn yr un cyfnod y llynedd. |

 Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod : Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymharydd** | **Targed** | **Ebr-Meh 2013-14 (1)** | **Ebr-Meh 2014-15 (1)** | | **Naratif** |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ymgysylltiad yn y Cynulliad (parhau), gan gynnwys:*** | | | | | | |
| 6 | Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd | Cyfanswm o 307 yn 2013-14 | Cynnydd o gymharu â 2013/14 | 109 | 92 | ⇩ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Ychydig yn is na'r un cyfnod y llynedd. |
| | Lefelau boddhad ymwelwyr | 87% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 80% 'Da' neu 'Boddhaol' | amherthnasol | 87% | ⇨ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Mae'r sgôr ar gyfartaledd ar gyfer ymwelwyr â'r Senedd wedi aros yn gyson ers inni ddechrau casglu'r data hyn ym mis Medi 2013. Mae ffyrdd gwell o fesur boddhad ymwelwyr yn cael eu datblygu. |
| | Digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru | Cyfanswm o 5 yn 2013-14 | - | 3 | 1 | ⇩ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Er bod llai o ddigwyddiadau ar y cyd na'r un cyfnod y llynedd, mae'r statws yn wyrdd o hyd gan nad oes targed ar gyfer y dangosydd hwn. |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad, gan gynnwys*** | | | | | | |
| 7 | Adroddiadau pwyllgor a hyrwyddwyd gan y cyfryngau neu'r wasg | 81% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 88% | 100% | ⇧ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Cafodd pob un o'r 6 adroddiad pwyllgor a gyhoeddwyd sylw yn y cyfryngau. |
| | Yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn edrych ar ein gwefan | 3 munud 59 eiliad ar gyfartaledd yn 2013-14 | Anelir at gynyddu hyn bob cyfnod | 5mun 22eiliad | 2 mun 20 eiliad | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Mae dangosydd yn cael ei ddatblygu i fesur rhyngweithio â gwefan y Cynulliad yn well. |
| | Rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol | | | | | | |
| | Facebook - hoffi / ymgysylltu | 2,610 hyd at fis Mawrth 2014 | | 1,875 | 2,720 / 532 | ⇧ | Cyfanswm ar ddiwedd mis Mehefin. Cynnydd graddol yn nifer y dilynwyr (cynnydd o 1.3% y mis ar gyfartaledd). O fis Ebrill 2014, mae cyfanswm y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad ar Facebook (hoffi, sylwadau a rhannu) wedi'i ychwanegu. |

Nid yw'r cyfnod rhang mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. 

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 [1] | Ebr-Meh 2014-15 [1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad (parhau), gan gynnwys*** | | | | | | | |
| 7 | Twitter - dilynwyr / ymgysylltu | 25,283 hyd at fis Mawrth 2014 | | 17,465 | 28,268 | ⇧ | Cyfanswm ar ddiwedd mis Mehefin. Cynnydd graddol yn nifer y dilynwyr (cynnydd o 3.8% y mis ar gyfartaledd). Bydd nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad ar Twitter ar gael ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. |
| | YouTube - munudau a wyliwyd / ymwelwyr | Cyfanswm o 39,325 / 20,177 yn 2013-14 | | 5,876 / 2,817 | 13.344 / 7,615 | ⇧ | Cyfanswm ar gyfer Ebrill-Mehefin. Gwyliwyd 4,334 o funudau'r mis ar gyfartaledd. O fis Ebrill 2014, ychwanegwyd cyfanswm yr ymweliadau ar YouTube - 2,556 y mis ar gyfartaledd gyda nifer uwch na'r cyfartaledd fis Mai (gweler y graff) oherwydd dathlu 15 mlynedd o ddatganoli. |
| | Y defnydd o Senedd.tv | Cyfanswm o 67,059 / 6,191 yn 2013-14 | | 20,823 / 1,613 | 12,780 / 1,289 | ⇩ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Mae defnyddwyr bellach wedi'u cynnwys. Gostyngiad yn sgil targedu negeseuon trydar drwy sianelau newydd y pwyllgorau ar Twitter, a'r ffaith bod YouTube yn fwy poblogaidd yn ystod y cyfnod hwn gan fod llawer o gynnwys fideo hygyrch wedi'i greu. Dylai ffigurau gwylio gynyddu am fod gwefan newydd Senedd.tv bellach yn fyw, sy'n gweithio'n well ar lawer o ddyfeisiau gwahanol. |
| | Nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu â thîm allgymorth addysg am y tro cyntaf | 106 cyfanswm 2013-14 (44 allgymorth) | | 43 (18 allgymorth) | 32 (17 allgymorth) | ⇩ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Ymgysylltodd 32 o ysgolion newydd, 17 ohonynt drwy'r tîm allgymorth addysg. |
| | Y traffig misol ar dudalennau Cofnod y Trafodion ar gyfartaledd - Cyfarfod Llawn yn unig | 7,578 ar gyfartaledd yn 2013-14 | | 9,347 | 6,320 | ⇩ | Cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Llai o ymwelwyr na'r cyfartaledd yn ystod y cyfnod o gymharu â chyfartaledd 2013-14, ond roedd hyn yn amrywio o 4,386 fis Ebrill (gan gynnwys 3 wythnos o doriad) a 7,926 fis Mehefin. |
| | Ymgysylltu rhyngwladol yn y Cynulliad ac oddi yno | Cyfanswm o 200 yn 2013-14 (cyfartaledd o 17 y mis) | - | 36 | 67 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. |

 Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod : Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymharydd** | **Targed** | **Ebr-Meh 2013-14** (1) | **Ebr-Meh 2014-15** (1) | | **Naratif** |
| | *Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol* | | | | | | |
| 8 | Ymgysylltu'n well â phobl Cymru | | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Datblygwyd Siartr newydd sy'n nodi ymrwymiad y Cynulliad i gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol yn ein gwaith, drwy estyn allan, ymgysylltu a rhoi adborth. Wrth wraidd hyn, bydd arlwy newydd ar-lein a mwy o gymorth i bwyllgorau. Datblygu ymhellach sianelau'r Cynulliad yn y cyfryngau cymdeithasol, o ran nifer a soffistigeiddrwydd, gan gynnwys YouTube a Twitter. Parhau i amrywio'r ffyrdd yr ydym yn casglu tystiolaeth fel rhan o ymchwiliadau pwyllgor, o ddefnyddio technegau gwahanol i dargedu grwpiau rhanddeiliaid newydd. |

| Nod : Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymharydd** | **Targed** | **Ebr-Meh 2013-14** (1) | **Ebr-Meh 2014-15** (1) | | **Naratif** |
| | *Lefel boddhad yr Aelodau o ran:* | | | | | | |
| 9 | Lwfansau a staffio | 8.30 yn2013 | 8.00 | 8.30 | 8.70 | ⇧ | Daw'r canlyniadau o arolwg yr Aelodau yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos gwelliant ar y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013 |
| | Tŷ Hywel a'r Senedd | 7.60 yn 2013 | 8.00 | 7.60 | 7.80 | ⇧ | |
| | *Dangosyddion perfformiad allweddol ar y gyllideb, gan gynnwys:* | | | | | | |
| 10 | Y Gyllideb - % rhagolwg tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn | 0.07% ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | <1% | 1.20% | 2.16% | ⇩ | Caiff gwariant ei reoli'n ofalus i sicrhau bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn o fewn i'r targed o 1%. |
| | Y Gyllideb - gwariant yn erbyn proffil | 1.24% ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | o fewn 2% i'r proffil | 1.41% | 2.04% | ⇩ | Mae gwariant yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. |

Nid yw'r cyfnod rhang mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. 

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod : Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymharydd** | **Targed** | **Ebr-Meh 2013-14 (1)** | **Ebr-Meh 2014-15 (1)** | | **Naratif** |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar y gyllideb (parhau), gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **10** | Targed gwerth am arian a chyflawniad (%) | £508,000 ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | £500,000 | £246,000 | £231,000 | ⇩ | Cyflawnwyd yn bennaf drwy reoli swyddi gwag. Ar y trywydd iawn i gyflawni £500,000 neu ragori ar hynny, yn y flwyddyn gyfredol. Caiff arbedion eu hailfuddsoddi i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn. |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer staff, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **11** | % absenoldeb salwch | 2.44% (cyfartaledd treigl ym mis Mawrth 2014) | <3% | 3.35% | 2.45% | ⇧ | Y cyfartaledd blynyddol, fel ym mis Mehefin. Mae hyn yn gyfystyr â 5.4 diwrnod fesul cyflogai o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 8.2 diwrnod. |
| | % adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd | 89% | 100% | 89% | 97% | ⇧ | Canran yr adolygiadau canol blwyddyn a gofnodwyd ar system newydd adnoddau dynol / y Gyflogres erbyn mis Mai 2014. |
| | Lefel boddhad staff (o'r arolwg staff) | 78% 2012 | 80% | 81% | | ⇧ | Canlyniad arolwg 2013 yn dangos bod 81% yn argymell y Cynulliad fel lle gwych i weithio yno. Caiff dangosydd newydd o ran ymgysylltu â staff ei ddatblygu gan ddefnyddio canlyniadau'r arolwg staff, i'w gwneud yn bosibl meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill. |
| | Nifer y staff - Nifer y bobl a'r nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) | 412 o bobl 398.87 FTE Mawrth 2014 | – | 381 o bobl 364.89 FTE | 427 o bobl 405.26 FTE | | Fel ym mis Mehefin. Y gyfradd drosiant oedd 5.96%. |

 Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 (1) | Ebr-Meh 2014-15 (1) | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod : Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | | | | | | | |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TGCh:*** | | | | | | |
| **12** | % targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos | amherthnasol | 100% | amherthnasol | 86.92% | amh. | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin 2014: Ebrill – 96.38% (276 o alwadau), Mai – 88.62% (325 o alwadau), Mehefin – 81.94% (465 o alwadau). Nodwyd bod 37% o dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth heb eu bodloni yn y categori 'nam meddalwedd', 24% yn y categori 'nam caledwedd' a 21% yn y categori 'eraill'. Dangosydd newydd yw hwn ac nid oes cymaryddion. |
| **12** | sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9) | amherthnasol | 8.00 | amherthnasol | 8.8 | amh. | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Dangosydd newydd yw hwn ac nid oes cymaryddion. |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TGCh (parhau):*** | | | | | | |
| **12** | Sgôr boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn Nhŷ Hywel a'r Senedd | 6.60 yn 2013 | 8.00 | 6.60 | 7.50 | ⇧ | Daw'r canlyniadau o arolwg yr Aelodau yn 2014. Y cymharydd yw'r ffigur cyfatebol o 2013. |
| **12** | Lefel boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn y swyddfeydd etholaeth / rhanbarthol | 6.10 yn 2013 | 8.00 | 6.10 | 6.70 | ⇧ | |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraethu, gan gynnwys:*** | | | | | | |
| **13** | Dyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu Aelodau a chyflenwyr o gymharu â'r targed | 3.55 ar gyfartaledd yn 2013-14 | <10 diwrnod | 3.94 | 4.16 | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin 2014. |
| **13** | Nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd | Cyfanswm o 51 yn 2013-14 | – | 10 | 13 | - | Ebrill-Mehefin 2014. Roedd un ymateb yn hwyr am fod eithriad yn gymwys a dau yn hwyr am fod angen ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. |
| **13** | % a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol | 88% ar amser 2013-14 | 100% | 100% | 77% | ⇩ | |

Nid yw'r cyfnod rhang mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. 


# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod : Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr-Meh 2013-14 [1] | Ebr-Meh 2014-15 [1] | | Naratif |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraethu, gan gynnwys:*** | | | | | | |
| **13** | Nifer yr argymhellion Archwilio Mewnol sy'n hwyr | - | Dim | 0 | 0 | ⇨ | Ebrill-Mehefin 2014. |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Cynaliadwyedd, gan gynnwys:*** | | | | | | |
| **14** | Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | Llinell sylfaen 2008/09 | Gostyngiad o 40% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2015 | - | -36% | ⇧ | Fel ym mis Mehefin. Dechrau cadarn i'r flwyddyn â gostyngiadau parhaus o ran y defnydd o drydan a nwy, gan arwain at ostyngiad o 36% mewn allyriadau cronnus. Mae hynny'n fan cychwyn gwych ar gyfer gweddill y flwyddyn. |
| | ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Cynaliadwyedd (parhau), gan gynnwys:*** | | | | | | |
| **14** | Gwastraff i safleoedd tirlenwi | 43 o dunelli ym mlwyddyn sylfaen 2010-11 | 0 tunelli erbyn mis Mawrth 2015 | 2.9 o dunelli | 0.88 o dunelli | ⇧ | Fel ym mis Mehefin. Mae dulliau ailgylchu a didoli gwastraff gwell yn golygu bod lefelau cyson isel o wastraff yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi bob mis, ac felly mae'r targed o fod yn ddiwastraff erbyn 2015 i'w weld yn gyraeddadwy. |
| | ***Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*** | | | | | | |
| **15** | Gwneud y mwyaf o'n Hystâd | – | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Paratowyd rhaglen buddsoddi a chynnal a chadw ar gyfer yr ystâd sy'n cynnwys deilliannau'r arolwg o'r ystâd a gomisiynwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd y rhaglen yn ffordd o dargedu a blaenoriaethu buddsoddiad yn yr ystâd er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn ddoeth a bod yr ystâd yn parhau i fod yn weithle addas i'r sawl sy'n ei defnyddio ac yn brofiad gwell i ymwelwyr. |


 Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

# Atodiad - Graffiau


Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.




**Naratif:** Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb gan barhau'r duedd ar gyfer 2013-14. Bellach, caiff canran y papurau pwyllgor a gyhoeddir ei fesur yn erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno gyda phob pwyllgor, yn hytrach na therfyn amser y Rheolau Sefydlog, sef dau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bellach, caiff canran cofnod y trafodion y pwyllgorau a gyhoeddir ei fesur yn erbyn targed mwy heriol o bum diwrnod gwaith yn hytrach na'r targed blaenorol o 14 diwrnod gwaith. Felly, nid yw'n bosibl cymharu â 2013.




**Naratif:** Mae nifer y dysgwyr Cymraeg yr un fath, ac eithrio cynnydd ym mis Ebrill pan gynhaliwyd gwersi Cymraeg dwys. Mae nifer yr Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (gan gynnwys gwersi Cymraeg) yn parhau i gynyddu.






**Naratif:** Mae'r targed ar gyfer ymgysylltu yn y Cynulliad yn cynyddu bob blwyddyn. Mae'r tabl manwl (gweler tudalen 5) yn dangos lefel uchel o foddhad cwsmeriaid ymhlith ymwelwyr â'r Senedd.


# Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.


**Proffil Allanol (KPI 7)**








**Naratif:** Dangosir y data ar broffil allanol (KPI7) ar wahân. Mae nifer ein dilynwyr ar Twitter yn gronnus. Cyfanswm fesul mis yw'r ffigurau ar gyfer ymweliadau â'n tudalennau ar YouTube a Senedd.tv. Yn ôl y disgwyl, gwelwyd twf parhaus o ran dilynwyr ar Twitter (cynnydd o 3.8% y mis ar gyfartaledd). Mae nifer yr ymweliadau ag YouTube wedi amrywio; ym mis Mai 2014, gwnaethom ddathlu 15 mlynedd o ddatganoli gyda nifer o fideos byr ar YouTube a oedd yn boblogaidd iawn (gan ddangos bod ymweliadau ag YouTube yn dibynnu ar safon y cynnwys rydym yn ei greu). Roedd llai o ymweliadau â Senedd.tv yn ystod y cyfnod hwn, gan ei fod yn cynnwys toriad o dair wythnos (dim ond un wythnos o doriad a gafwyd ym mis Ebrill 2013).




**Naratif:** Mae'r ffigurau ar gyfer absenoldeb salwch yn dal i ddangos tuedd tuag at i lawr, gan ragori ar y targed o 3% y mis ers mis Ionawr 2014.




**Cyf Bil (*Cyfnod ddiwedd mis Mehefin*)**
**1** Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (*Cwblhawyd 1 Mai*)
**2** Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (*Yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys*)
**3** Y Bil Addysg (*Cwblhawyd 12 Mai*)
**4** Y Bil Sector Amaethyddol (Bil Brys) (*Yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys*
**5** Y Bil Tai (*Yn aros am Gydsyniad Brenhinol*)
**6** Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) (*Cyfnod 1*)
**7** Y Bil Addysg Uwch (Cymru) (*Cyfnod 1*)
**8** Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (*Cyfnod 1*)

**Naratif:** Mae'r graff yn dangos yr amser a gymerodd pob Bil i gwblhau'r broses ddeddfwriaethol. Mae'n dangos y Biliau sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol (h.y. y rhai sydd wedi'u cwblhau) a'r rhai sy'n dal i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y cyfnod rhwng **Ebrill a Mehefin 2014.**




Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales